Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Complexion Medispa, Casnewydd

Dyddiad yr arolygiad: 14 Awst 2026

Dyddiad cyhoeddi: 16 Tachwedd 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau amgen yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-632-8

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom 5

2. Crynodeb o'r arolygiad 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym 9

   Ansawdd Profiad y Claf 9

   Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol 12

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth 15

4. Y camau nesaf 16

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad 18

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith 19

Atodiad C – Cynllun gwella 20



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Complexion Medispa ar 14 Awst 2026.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 2 holiadur. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod cleifion yn cael lefel dda o ofal yn y clinig. Cafwyd adborth cadarnhaol am y gwasanaeth gan gleifion, a nododd pob un o'r ymatebwyr i holiadur AGIC eu bod wedi cael profiad ‘da iawn’. Dywedodd cleifion wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch a'u bod wedi cael digon o wybodaeth i'w helpu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu triniaeth.

Roedd trefniadau cadarn ar waith i gefnogi cleifion drwy gydol eu triniaeth. Gwelsom dystiolaeth o brosesau ymgynghori a chydsynio cynhwysfawr, gyda hanes meddygol yn cael ei adolygu'n rheolaidd a chydsyniad yn cael ei gadarnhau cyn rhoi triniaeth. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos bod asesiadau cyn triniaeth priodol, gan gynnwys profion croen lle bo angen, yn cael eu cwblhau cyn dechrau triniaeth.

Roedd y clinig yn hybu iechyd a llesiant drwy roi cyngor oedd yn berthnasol i'r driniaeth a chyfeirio cleifion at wasanaethau gofal iechyd eraill lle y bo'n briodol. Roedd trefniadau ar waith hefyd i gael adborth gan gleifion ac ymateb iddo mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys adolygiadau digidol a chyfleoedd i roi adborth yn ddienw. Er bod yr ystafell drin ar y llawr cyntaf, roedd prosesau ar waith yn y clinig i nodi gofynion mynediad posibl yn gynnar a gwneud addasiadau rhesymol lle bo hynny'n bosibl.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Lefelau uchel o adborth cadarnhaol am brofiadau cleifion, gyda phob un o'r ymatebwyr yn nodi bod eu profiad yn ‘dda iawn’.
- Proses ymgynghori a chydsynio gynhwysfawr, a gefnogir gan adolygiadau rheolaidd o hanes meddygol a chydsyniad parhaus drwy gydol y driniaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith i helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol yn y clinig. Mae'r safle yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y gwasanaethau a ddarperir. Roedd y cyfarpar IPL wedi'i gofrestru'n briodol ag AGIC, yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd ac yn cael ei gefnogi gan reolau lleol a ddarparwyd gan Gynghorydd Diogelu rhag Laserau cymwysedig.

Roedd systemau ar waith yn y clinig i gefnogi iechyd a diogelwch, atal a rheoli heintiau, rheoli cofnodion a defnyddio cyfarpar IPL yn ddiogel. Roedd y cofnodion cleifion a welsom yn glir, yn ddarllenadwy ac yn cynnwys digon o wybodaeth i ddarparu triniaeth yn ddiogel.

Gwnaethom nodi rhai meysydd yr oedd angen eu gwella. Nid oedd cofnodion yn cael eu cadw i ddangos bod gwiriadau atal a rheoli heintiau yn cael eu cwblhau, ac nid oedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod gwiriadau o sbectolau amddiffynnol wedi cael eu cofnodi cyn i gleifion eu defnyddio.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw i ddangos bod gwiriadau atal a rheoli heintiau yn cael eu cwblhau yn ogystal â gwiriadau o sbectolau amddiffynnol cyn i gleifion eu defnyddio.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cyfarpar IPL yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol, ei wasanaethu'n rheolaidd a'i gefnogi gan reolau lleol a ddarparwyd gan Gynghorydd Diogelu rhag Laserau.
- Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cynnal i safon dda ac yn cynnwys digon o wybodaeth i ddarparu triniaeth yn ddiogel.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod trefniadau llywodraethu a rheoli priodol ar waith yn y clinig. Y rheolwr cofrestredig oedd yn berchen ar y gwasanaeth ac yn ei reoli, ac roedd yn gyfrifol am bob agwedd ar ddarparu'r gwasanaeth, gan gynnwys goruchwyliaeth glinigol, cadw cofnodion a chydymffurfiaeth reoliadol. Roedd trefniadau yswiriant priodol ar waith ac roedd tystysgrif cofrestru'r clinig ag AGIC wedi'i harddangos ar y safle.

Roedd gan y clinig bolisïau a gweithdrefnau er mwyn helpu i weithredu'r gwasanaeth yn effeithiol, gan gynnwys trefniadau i reoli pryderon a chwynion.

Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant IPL penodol a hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ac wedi dangos dealltwriaeth dda o'i gyfrifoldebau. Fodd bynnag, gwelsom fylchau yn y trefniadau i fonitro hyfforddiant gorfodol, a oedd yn golygu nad oedd hyfforddiant diogelwch tân, hyfforddiant diogelu a hyfforddiant atal a rheoli heintiau wedi cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cadw matrics hyfforddiant i fonitro'r hyfforddiant gorfodol sy'n cael ei gwblhau a dyddiadau adnewyddu i sicrhau bod yr hyfforddiant yn gyfredol bob amser.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd trefniadau cwyno priodol ar waith, ac roedd gwybodaeth glir ar gael i'r cleifion am sut i godi ac uwchgyfeirio pryderon.
- Ymatebodd y rheolwr cofrestredig yn gadarnhaol i'r materion a nodwyd yn ystod yr arolygiad a chymerodd gamau di-oed i ymdrin â nhw.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Rhoddodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC adborth cadarnhaol am y gwasanaeth, a nododd pob un o'r ymatebwyr eu bod wedi cael profiad ‘da iawn’.

Tynnodd y cleifion sylw hefyd at broffesiynoldeb y staff, eu cyfathrebu clir, a'u gallu i wneud iddynt deimlo'n gyfforddus, yn ddiogel a'u bod yn cael gofal da.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

" Roeddwn yn hapus iawn â'r gwasanaeth a gefais. Roedd y staff yn broffesiynol ac yn gyfeillgar, ac roedd y safonau hylendid yn rhagorol drwy gydol fy nhriniaeth. Roeddwn i'n teimlo'n gyfforddus, yn wybodus ac yn hyderus yng nglendid y gwasanaeth a'r gofal a ddarparwyd.”

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedwyd wrthym fod y clinig yn hybu iechyd yn ystod ymgyngoriadau â chleifion ac apwyntiadau trin. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau ar amddiffyn rhag yr haul a defnyddio'r sauna yn briodol. Roedd y clinig yn manteisio ar gyfleoedd i ryngweithio â chleifion i'w cyfeirio at wasanaethau a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol perthnasol, fel meddygon teulu lle y nodwyd anghenion iechyd ehangach.

Urddas a pharch

Er nad oedd y clinig ar agor i gleifion ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom yr ystafell ar gyfer triniaethau goleuni pwls dwys (IPL), a oedd ar y llawr cyntaf. Roedd gan y clinig ddrws y gellir ei gloi lle roedd ymgyngoriadau a thriniaethau'n cael eu cynnal, ac roedd y drysau'n cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau i sicrhau preifatrwydd.

Clywsom fod cleifion yn cael cynnig mesurau priodol i gynnal eu hurddas, gan gynnwys gorchuddion neu ddarpariaethau addas yn ystod triniaeth. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod croeso i gleifion ddod â hebryngwr o'u dewis eu hunain, ac roedd polisi hebryngwyr priodol ar gael i gefnogi hyn.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch, bod mesurau wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu eu preifatrwydd a bod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud yn ystod eu triniaethau.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig broses gydsynio gynhwysfawr ar gyfer cleifion, lle roedd unigolion yn cael esboniadau ar lafar ac ar bapur am y triniaethau a oedd ar gael. Roedd y wybodaeth hon yn cynnwys manteision bwriadedig triniaethau, y risgiau posibl ac unrhyw gyfyngiadau, a chyfarwyddiadau i'w dilyn cyn ac ar ôl cael triniaeth.

Gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn cwblhau ac yn llofnodi ffurflen hanes meddygol a chydsynio i driniaeth ar ddechrau eu triniaeth. Roedd y ffurflenni hyn yn cael eu hadolygu ym mhob apwyntiad dilynol ac roedd hanes meddygol yn cael ei ddiweddaru lle bo hynny'n briodol. Gofynnwyd am lofnod cleifion ym mhob apwyntiad dilynol i gadarnhau eu bod yn cydsynio i'r driniaeth.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr holl opsiynau triniaeth, bod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn iddynt ddechrau triniaeth a'u bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd gan y clinig ddatganiad o ddiben a chanllaw i gleifion, a oedd ar gael i gleifion ar gais ar bapur ac yn electronig.

Roedd gan y clinig wefan a oedd yn rhoi trosolwg o'i wasanaethau ac yn cynnwys manylion cyswllt i gleifion wneud ymholiadau a threfnu apwyntiadau. Dywedwyd wrthym y gallai cleifion drefnu apwyntiad ar lwyfannau digidol, dros y ffôn neu'n bersonol yn y practis.

Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom edrych ar gofnodion pum claf a chadarnhawyd bod prosesau priodol wedi'u rhoi ar waith cyn y driniaeth. Lle bo angen, roedd y cleifion wedi cael prawf croen cyn dechrau cwrs o driniaeth, gan alluogi'r ymarferydd i asesu'r tebygolrwydd o adweithiau niweidiol a theilwra'r gofal yn unol â hynny.

Roedd cofrestr triniaethau ar gyfer yr uned IPL yn cael ei chadw, a oedd yn cynnwys gwybodaeth hanfodol fel dynodyddion cleifion, dyddiad y driniaeth, paramedrau triniaeth ac unrhyw adweithiau niweidiol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd gan y clinig bolisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar waith, i ddangos ei ymrwymiad i sicrhau mynediad teg i bob unigolyn at wasanaethau a bod pob unigolyn yn cael ei drin yn gyfartal. Er bod yr ystafell drin wedi'i lleoli ar y llawr cyntaf ac, felly, ni

allai'r rhai ag anawsterau symudedd sylweddol ei chyrraedd, dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth yn holi am gyfyngiadau o ran symudedd yn ystod y pwynt cyswllt cychwynnol â chlaf, er mwyn helpu i nodi unrhyw faterion o ran mynediad yn gynnar. Byddai'r clinig yn gwneud addasiadau lle bo hynny'n rhesymol i fodloni amseroedd apwyntiadau dewisol y cleifion, gan gefnogi mynediad cyfartal at y gwasanaeth.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd gweithdrefn gwyno ar waith a byddai'r cleifion yn cael neges destun fel mater o drefn ar ôl pob apwyntiad i'w gwahodd i ddarparu adolygiad digidol. Yn ogystal, roedd adborth gan gleifion yn cael ei gasglu drwy adolygiadau ar-lein neu wyneb yn wyneb yn y clinig. Roedd gan y clinig flwch awgrymiadau yn yr ardal aros i roi cyfle i gleifion adael adolygiad dienw.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Gwelsom fod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn ôl yr olwg, yn fewnol ac yn allanol. Roedd mesurau diogelwch addas ar waith i atal mynediad heb awdurdod. Roedd ystafell drin y clinig yn drefnus, yn cynnwys yr holl gyfarpar priodol, ac roedd angen cyfrinair i gychwyn y peiriant IPL.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom dystiolaeth foddhaol o adroddiad archwilio a phrofi gosodiadau trydanol cyfredol a gwblheir bob pum mlynedd a thystysgrif profion offer cludadwy (PAT). Roedd asesiad risg Iechyd a Diogelwch wedi'i gwblhau ac yn gyfredol. Roedd pecyn cymorth cyntaf cyflawn a chyfredol ar gael.

Gwelsom fod asesiad risg tân ar waith; fodd bynnag, ni allai'r clinig ddarparu tystiolaeth i ddangos bod hyfforddiant diogelwch tân wedi'i gwblhau. Nid oedd arwyddion dim smygu wedi'u harddangos yn y lleoliad chwaith. Cawsom dystiolaeth bod y canfyddiadau hyn wedi cael sylw a bod hyfforddiant wedi cael ei gwblhau yn syth ar ôl yr arolygiad.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd yr amgylchedd yn ymddangos yn lân ac nid oedd unrhyw annibendod diangen. Dangosodd y rheolwr cofrestredig ymwybyddiaeth o egwyddorion atal a rheoli heintiau. Gwelsom fod rhestrau gwirio glanhau yn cael eu defnyddio bob dydd; fodd bynnag, nid oedd y rhain yn cael eu cadw fel cofnod o weithgareddau glanhau rheolaidd. Cytunodd y rheolwr cofrestredig yn ystod yr arolygiad y byddai rhestrau gwirio glanhau yn cael eu cofnodi a'u cadw yn y dyfodol.

Nid oedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau; fodd bynnag, darparwyd tystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad i ddangos bod hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau wedi'i drefnu a'i gwblhau.

Roedd gwastraff clinigol yn cael ei wahanu a'i reoli yn y clinig, ond nid oedd y bin ar gyfer gorlif gwastraff clinigol a gedwir y tu allan i'r safle wedi'i ddiogelu rhag mynediad heb awdurdod. Cafodd y rheolwr cofrestredig ei hysbysu am hyn yn ystod yr arolygiad, a chafodd y bin gorlif gwastraff clinigol ei symud i fan priodol yn y safle, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei reoli'n ddiogel ac yn unol â gofynion cyfreithiol.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Mae'r clinig wedi'i gofrestru i ddarparu triniaeth i unigolion 18 oed a throsodd, a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y clinig yn glynu'n gaeth at y cyfyngiad oedran hwn, yn unol â gofynion cofrestru'r gwasanaeth. Dywedwyd wrthym hefyd na chaiff plant fod yn bresennol ar y safle.

Roedd gan y gwasanaeth bolisi diogelu ysgrifenedig, a oedd yn cynnwys manylion timau diogelu lleol, ac roedd polisi chwythu'r chwiban ar gael hefyd. Gwnaethom nodi nad oedd hyfforddiant diogelu'r rheolwr cofrestredig yn gyfredol mwyach. Cawsom dystiolaeth ar ffurf tystysgrif yn syth ar ôl yr arolygiad i ddangos bod hyfforddiant diogelu bellach wedi cael ei gwblhau ar y lefel briodol.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y peiriant IPL a oedd yn cael ei ddefnyddio yn cyfateb i'r peiriant a oedd wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), ac roedd tystiolaeth glir i ddangos bod y cyfarpar wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd.

Roedd gan y gwasanaeth gontract parhaus â Chynghorydd Diogelu rhag Laserau cymwysedig, a oedd wedi darparu rheolau lleol ar gyfer defnyddio'r peiriant IPL yn ddiogel. Roedd y rheolau lleol hyn wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd ac wedi'u llofnodi gan y gweithredwr IPL.

Roedd protocolau trin a ddarparwyd gan wneuthurwyr y peiriant IPL ar waith.

Gwelsom fod arwyddion rhybuddio priodol wedi'u harddangos y tu allan i'r ystafell drin i rybuddio eraill bod cyfarpar IPL yn cael ei ddefnyddio. Roedd trefniadau addas ar waith hefyd i sicrhau bod y cyfarpar yn ddiogel pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y gweithredwr awdurdodedig wedi cwblhau hyfforddiant priodol a chyfredol ar ddefnyddio'r uned IPL benodol a hyfforddiant Craidd Gwybodaeth.

Roedd cyfarpar diogelu personol priodol ar waith, gan gynnwys sbectolau addas i gleifion, gweithredwyr a hebryngwyr. Roedd y cyfarpar hwn yn cael ei storio'n ddiogel a dywedwyd ei fod yn cael ei wirio'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn gweithio ac yn lân. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth bod y gwiriadau hyn yn cael eu cofnodi cyn i gleifion ddefnyddio'r cyfarpar.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadw cofnodion i ddangos bod sbectolau amddiffynnol yn cael eu gwirio cyn i gleifion eu defnyddio.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Dangosodd y rheolwr cofrestredig wybodaeth a dealltwriaeth dda mewn perthynas â'r triniaethau a ddarperir. Disgrifiodd hefyd bwysigrwydd arsylwadau ar ôl triniaeth ac apwyntiadau dilynol â chleifion er mwyn helpu i ddarparu gofal unigol gwell drwy gydol cwrs o driniaeth.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod cofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel mewn cabinet y gellir ei gloi, a oedd yn sicrhau cyfrinachedd a chydymffurfiaeth â gofynion diogelu data.

Gallai'r rheolwr cofrestredig ddisgrifio trefniadau priodol ar gyfer cadw a gwaredu cofnodion yn glir, gan gynnwys cyfnodau cadw perthnasol yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoliadol. Fodd bynnag, nid oedd y clinig wedi bod yn gweithredu am gyfnod digon hir i'r prosesau hyn fod wedi'u rhoi ar waith.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion pum claf yn ystod yr arolygiad. Roedd y cofnodion a welsom yn glir, yn ddarllenadwy ac yn cynnwys digon o wybodaeth i ddarparu triniaeth yn ddiogel.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig oedd yn berchen ar Complexion Medispa ac yn ei reoli. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn gyfrifol am bob agwedd ar ddarparu'r gwasanaeth, gan gynnwys rhoi triniaethau, goruchwylio safonau clinigol, cadw cofnodion a chydymffurfiaeth reoliadol.

Roedd tystysgrif cofrestru'r clinig ag AGIC wedi'i harddangos ar y safle. Roedd gan y clinig yswiriant priodol ar waith hefyd, ac roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol ar gael i'w harchwilio.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gan y clinig bolisi a gweithdrefn gwyno, a oedd ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros ac yn y ffolder gwybodaeth i gleifion.

Roedd rheolwr y lleoliad yn goruchwylio cwynion gan gleifion. Roedd y weithdrefn gwyno a welsom yn briodol, yn gyfredol ac yn cyfeirio at AGIC fel ffordd o uwchgyfeirio pryderon. Roedd crynodeb o'r broses gwyno wedi'i gynnwys yn natganiad o ddiben y clinig ac yn y canllaw i gleifion.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig yn cynnal ei wybodaeth a'i sgiliau drwy gwblhau hyfforddiant IPL penodol a hyfforddiant Craidd Gwybodaeth. Yn ystod yr arolygiad, nodwyd bylchau mewn perthynas â hyfforddiant diogelwch tân, diogelu, ac atal a rheoli heintiau. Ymatebodd y rheolwr cofrestredig yn gadarnhaol i'r canfyddiadau a darparodd dystiolaeth i ddangos bod yr hyfforddiant gofynnol wedi'i gwblhau yn fuan ar ôl yr arolygiad. Cymerodd gamau ar unwaith i fynd i'r afael â materion eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad hefyd, gan gynnwys archebu arwyddion dim smygu priodol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadw matrics hyfforddiant i fonitro'r hyfforddiant gorfodol sy'n cael ei gwblhau a dyddiadau adnewyddu i sicrhau bod yr hyfforddiant yn gyfredol bob amser.

Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd arwyddion "Dim Smygu" priodol wedi'u harddangos ar y safle.	Roedd y ffaith nad oedd arwyddion "Dim Smygu" ar y safle yn golygu nad oedd yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion di-fwg.	Codwyd hyn â'r rheolwr cofrestredig yn ystod yr arolygiad.	Cymerodd y rheolwr cofrestredig gamau ar unwaith a darparodd dystiolaeth yn fuan ar ôl yr arolygiad i ddangos bod arwyddion wedi'u harddangos.
Nid oedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod hyfforddiant diogelwch tân wedi'i gwblhau. Nid oedd hyfforddiant atal a rheoli heintiau wedi'i gwblhau ar y lefel briodol. Nid oedd hyfforddiant diogelu'r rheolwr cofrestredig yn gyfredol mwyach.	Nid oedd cofnodion hyfforddiant cyfredol ar gael a oedd yn rhoi llai o sicrwydd bod gwybodaeth y rheolwr cofrestredig am ddiogelwch tân, atal a rheoli heintiau a chyfrifoldebau diogelu yn cael ei chynnal a'i hadnewyddu yn unol â gofynion cyfredol.	Codwyd hyn â'r rheolwr cofrestredig yn ystod yr arolygiad.	Cymerodd y rheolwr cofrestredig gamau ar unwaith drwy gwblhau hyfforddiant diogelwch tân, hyfforddiant atal a rheoli heintiau a hyfforddiant diogelu ar y lefel briodol, a darparu tystysgrifau i AGIC i ddangos hynny.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Complexion Medispa

Dyddiad yr arolygiad: 14 Awst 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau	Dim materion sicrwydd ar unwaith.

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Complexion Medispa

Dyddiad yr arolygiad: 14 Awst 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

	Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Nid oedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod gwiriadau o sbectolau amddiffynnol yn cael eu cofnodi cyn i'r sbectolau gael eu defnyddio.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadw cofnodion i ddangos bod sbectolau amddiffynnol yn cael eu gwirio cyn i gleifion eu defnyddio.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol Rheoliadau 15, 23	Mae gwirio sbectolau amddiffynnol bellach wedi cael ei ychwanegu at y rhestrau gwirio a gwblheir cyn rhoi triniaeth ac ar ddechrau a diwedd y dydd.	Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau 24/9/26

2.	Roedd y cofnodion hyfforddiant gorfodol yn dangos nad oedd hyfforddiant wedi'i ddiweddaru o fewn yr amserlenni gofynnol ym mhob achos.	Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried cadw matrics hyfforddiant i fonitro'r hyfforddiant sy'n cael ei gwblhau a dyddiadau adnewyddu i sicrhau bod yr hyfforddiant gorfodol yn gyfredol bob amser.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol Rheoliadau 19, 21	Mae matrics hyfforddiant ar waith i sicrhau bod pob hyfforddiant yn bodloni'r amserlenni angenrheidiol a chaiff ei wirio bob blwyddyn ar y cyd â pholisïau a gweithdrefnau.	Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau 24/9/26

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: Samantha Fidler

Enw (priflythrennau): Samantha Fidler

Swydd: Rheolwr Cofrestredig **Dyddiad: 30 Medi 2026**